“Simon, Simon, dyma Satan wedi eich hawlio chwi, i’ch gogrwn fel ŷd; ond yr wyf fi wedi deisyf drosot ti na fydd dy ffydd yn pallu. A thithau, pan fyddi wedi dychwelyd ataf, cadarnha dy frodyr.”
(Luc 22:31-32)

Dyma eiriau o rybudd ac o gysur gan y Gwaredwr. Mae’n rhybuddio Pedr o ymosodiad Satan a hefyd o’i amddiffyn gadarn Ef. Mae’n atgoffa pob un ohonom mor fregus ydym yn ein nerth ein hunain, a faint yw’n dibyniaeth ar eiriolaeth ein Harchoffeiriad mawr.

Simon

Mae’n ddiddorol bod Iesu’n defnyddio’r enw Simon yn adnod 31 ond Pedr yn 34. Mae’n bosib bod y Meistr eisiau tynnu sylw’r darpar arweinydd at ei wendid naturiol heb gymorth Crist. Mae’n ailadrodd yr enw i geisio tynnu sylw Simon at ddifrifoldeb y frwydr ysbrydol mae’n rhan ohoni. Hefyd mae’n dangos ei ofal mawr dros ei ddisgybl, fel gyda Martha o deulu annwyl Bethania: **“Martha, Martha, yr wyt yn pryderu ac yn trafferthu am lawer o bethau”** (Luc 10:41). Mae’n debyg bod pwyslais ar y gair a gyfieithir ‘dyma’ fel gyda ‘wele’ yng nghyfieithiad William Morgan. Mae Iesu’n dweud rhywbeth fel: ‘sylwa’, ‘gwylia’ neu ‘yli’ i geisio rhybuddio Simon yn eglur. Allai Pedr ddim dweud na chafodd ei ragrybuddio!

Satan

Mae Satan wedi gwneud cais taer i geisio gogrwn y disgyblion a’u gwahanu oddi wrth eu ffydd ac oddi wrth eu Harglwydd. Roedd y broses o ogrwn yn gyffredin iawn gydag ŷd yn nyddiau’r Beibl. Byddai gwraig, fel arfer, yn dal gogr mawr yn ei llaw ac yn ysgwyd yr ŷd yn galed o ochr i ochr er mwyn i’r us godi i’r wyneb a chael ei daflu i ffwrdd. Yna byddai’n gwneud symudiad tebyg i swlian gyda’r gogr a chwythu dros yr ŷd fel bod unrhyw us oedd yn weddill yn ymgasglu mewn pentwr bach, hawdd ei symud.

Dyma gipolwg y tu hwnt i frwydrau’r galon a’r gymdeithas i wrthdaro dwys y byd ysbrydol. Cawn enghraifft debyg iawn gyda Job pan geisiodd Satan hawl i’w boenydio er mwyn iddo wadu Duw: **“Ond estyn di dy law i gyffwrdd â dim o’i eiddo; yna’n sicr fe’th felltithia yn dy wyneb”** (Job 1:11).

Mae hyn yn rybudd i Simon a gweddill y disgyblion (chwi), ond hefyd i ni heddiw. Yr un yw nod Satan o hyd, sef ein hysgwyd yn rhydd o’n ffydd ac o

afael y Gwaredwr arnom.

Gweddi Iesu

Yr hyn sy'n rhwystro Satan rhag llwyddo yw nid nerth Pedr na'i benderfyniad na'i ffydd, ond gweddi Crist. Dyma olwg hyfryd ar ein Harchoffeiriad a'n Heiriolwr mawr ar waith. Mae Ef wedi gweld nod Satan ac wedi clywed ei gais, ond mae yntau wedi ei hawlio hefyd fel disgybl ac arweinydd apostolaidd i'w deyrnas dragwyddol. Diolch bod hawliau Crist arnom yn drech na hawliau Satan!

Mae Iesu'n nodi ei fod wedi gweddïo'n bersonol dros Simon (ti). Dyma wirionedd bendigedig, sef bod Iesu'n eiriol yn bersonol dros ei ddisgyblion. Mae'r Bugail da yn adnabod ei ddefaid erbyn eu henwau, ac yn gweddïo drostynt wrth eu henwau hefyd.

Dallineb Simon

Mae'n drist clywed ymffrost didwyll ond gwag Simon Pedr. Roedd yn pwyso llawer gormod ar ei frwdfrydedd a'i ymroddiad ei hunan. Wrth gwrs ei fod yn bwriadu bod yn ffyddlon hyd angau, ond ni allai weld nad oedd hyn yn bosibl yn ei nerth ei hunan. Mor wir yw'r gair sy'n dweud bod ein calonnau yn fwy twyllodrus na dim. Rhaid i ni weddïo am nerth a gras gan yr Arglwydd i gyflawni ein gwasanaeth iddo.

Cân y ceiliog

Mae proffwydoliaeth Iesu am y ceiliog yn arwyddocaol iawn. Tybed nad yw cân y ceiliog yn arwydd o wagedd ymffrost y disgybl-bysgotwr. Roedd sŵn da i'w eiriau, ond erbyn y wawr byddai'n amlwg mai clochdar gwag oedd y cyfan. Hefyd byddai cân y ceiliog yn gyfrwng i ddod â Phedr i edifeirwch. Wrth glywed y ceiliog, byddai'n cofio geiriau'r Gwaredwr ac yn teimlo chwerwder ei bechod i'r byw.

Adferiad

Wrth sôn am y ceiliog, felly, mae Iesu'n cadarnhau ei ddisgwyliad y byddai Pedr yn dychwelyd ato. Wrth ei alw'n Pedr nawr, y graig, mae'n dangos ei fod yn disgwyl iddo fod yn graig eto ymhlith y disgyblion. Mae'n disgwyl iddo fod yn fugail gofalus o'i frodyr. Mae'n debyg y byddai Pedr yn disgwyl llawer gormod oddi wrth bawb oni bai iddo faglu ei hunan. Byddai ganddo lawer mwy o gydymdeimlad gyda gwendidau eraill ar ôl gweld ei wendid ei hunan. Byddai'n llawer mwy tebygol o adfer credadun gwan **"mewn ysbryd addfwyn"** (Gal.6.1) ar ôl y profiad hwn.